



## **GWEITHDREFN RHYDDID GWYBODAETH**

<b><u>Rheoli Dogfennau</u></b>	
Rhif y Fersiwn	2.1
Awdur (Enw, Teitl y Swydd)	Joanne Regan, Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth
Dyddiad Cymeradwyo	Gorffennaf 2019
Cymeradwywyd gan	Sian Curley, Prif Weithredwr
Fersiwn a Ddisodlwyd	2.0
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf	Mehefin 2023

<b><u>Rheoli Fersiynau</u></b>			
<b>Fersiwn</b>	<b>Dyddiad</b>	<b>Diwygiwyd gan</b>	<b>Y Rheswm dros Gyhoeddi/Diwygio</b>
1.1	19/07/18	James Iles, Swyddog Llywodraethu	Diweddariad cyffredinol oherwydd newid yn strwythur Swyddfa'r Comisiynydd.
1.2	23/07/18	Joanne Regan, Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth	Diweddariad cyffredinol a sylwadau a wnaed ar newidiadau yn 1.1
1.3	24/07/18	James Iles, Swyddog Llywodraethu	Diweddariad cyffredinol a derbyn newidiadau.
1.4	27/09/18	Joanne Regan, Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth	Cynnwys yr adran 'Absenoldeb Staff Gofynnol' yn Atodiad A.
1.5	01/10/18	Joanne Regan, Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth	Wedi'i diweddarau i adlewyrchu dogfen Cod Ymarfer Adran 45 Rhyddid Gwybodaeth Swyddfa'r Cabinet ddiwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2018.
2.0	17/06/19	Joanne Regan, Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth	Fersiwn derfynol y weithdrefn a gymeradwywyd gan y Prif Weithredwr.
2.1	29/03/22	Joanne Regan, Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth	Wedi'i ddiweddarau i gynnwys rhif Safecall ac i sicrhau cysondeb â'r derminoleg a ddefnyddiwyd. Wedi diweddarau logo Swyddfa'r Comisiynydd.

# SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GWEITHDREFN RHYDDID GWYBODAETH

## **Gweithdrefn**

Mae'r weithdrefn hon yn cefnogi Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (Swyddfa'r Comisiynydd) mewn cysylltiad â Rhyddid Gwybodaeth, wrth wneud darpariaeth ar gyfer ceisiadau ac adolygiadau/apeliadau Rhyddid Gwybodaeth. Mae Rhyddid Gwybodaeth yn effeithio ar yr holl staff.

Mae Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi hawl cyffredinol i gael mynediad at yr holl wybodaeth sydd wedi'i chofnodi a gedwir gan awdurdod cyhoeddus, oni bai y gellir eithrio'r wybodaeth o dan y ddeddfwriaeth.

### **1. Nodi Cais Rhyddid Gwybodaeth**

Rhaid i geisiadau am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y Ddeddf) fod ar ffurf ysgrifenedig (gan gynnwys electronig) a gellir eu cyflwyno i unrhyw gynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd. Rhaid cofio nad oes rhaid i gais nodi ei fod yn cael ei wneud o dan y Ddeddf ac nid oes rhaid i'r ymgeisydd ddatgan y rheswm dros y cais, felly mae angen bod yn wiliadwrus wrth adnabod ceisiadau posibl.

Dylai staff gyfeirio at y ddogfen "**Canllawiau Staff – Ymdrin â Cheisiadau am Wybodaeth yn Atodiad A**" sy'n gweithredu fel atodiad i'r weithdrefn hon er mwyn i staff fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau wrth ymdrin â cheisiadau am wybodaeth.

### **2. Nodi Cais rhyddid gwybodaeth**

Nid oes angen trin pob ymholiad yn ffurfiol fel cais o dan y Ddeddf. Yn aml bydd ymdrin â rhai ceisiadau fel ymholiadau arferol o ddydd i ddydd yn darparu gwasanaeth cwsmeriaid gwell o lawer. Dim ond os yw'r canlynol yn berthnasol y bydd angen i ddarpariaethau'r Ddeddf ddod i rym:

- ni allwch ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar unwaith; neu
- mae'r sawl sy'n gwneud y cais yn ei gwneud yn glir ei fod yn disgwyl ymateb o dan y Ddeddf.

Mae'r siart llif ymdrin â chais a luniwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Atodiad B, yn rhoi trosolwg o'r camau i'w dilyn wrth ymdrin â chais am wybodaeth.

Wrth ymdrin â chais o dan y Ddeddf, dylid cydnabod pob cais cyn gynted â phosibl a dylid ymdrin ag ef o fewn 20 diwrnod gwaith.

Rhaid i unrhyw gais am wybodaeth sy'n nodi'n benodol y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol neu sy'n gofyn am wybodaeth y teimlir na ddylid ei datgelu gael ei gyfeirio at y Swyddog Llywodraethu.

Dylid cyfeirio unrhyw gais am fanylion personol am unigolion hefyd at y Swyddog Llywodraethu er mwyn i'r weithdrefn Cais Gwrthrych am Wybodaeth gael ei rhoi ar waith.

### **3. Dyletswydd i Ddarparu Cyngor a Chymorth**

O dan Adran 16 o'r Ddeddf, mae gan Swyddfa'r Comisiynydd ddyletswydd i "ddarparu cyngor a chymorth" i unigolion sy'n ceisio dod o hyd i wybodaeth o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Egluro ceisiadau aneglur ;
- Helpu i ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani mewn fformat derbyniol;
- Lleihau ymatebion sy'n fwy na'r terfyn costau (adran 12);
- Pan na ddarparwyd yr wybodaeth am ei bod yn hygyrch drwy ddulliau eraill (Adran 21) neu pan fo bwriad i'w chyhoeddi yn y dyfodol (Adran 22);
- Pan fydd y cais yn cael ei drosglwyddo i awdurdod cyhoeddus arall oherwydd bod yr wybodaeth yn cael ei chadw ganddo ac nid gan yr awdurdod cyhoeddus y cyfeiriwyd y cais ato.

Nid oes angen darparu cyngor a chymorth os yw'r cais yn flinderus.

### **4. Cael cais**

Bydd y Swyddog Llywodraethu yn cofnodi pob cais rhyddid gwybodaeth cydnabyddedig a bydd yn darparu cyfeirnod unigryw ar gyfer pob cais.

Pan ddaw i law, os yw cais yn annarllenadwy neu os nad yw'n disgrifio'n ddigon manwl yr wybodaeth a geisir, bydd y Swyddog Llywodraethu yn ceisio egluro'r cais gyda'r ymgeisydd a helpu cymaint â phosibl i nodi'r wybodaeth sydd ei hangen.

Ar ôl iddo ddod i law neu ar ôl iddo gael ei egluro, anfonir cydnabyddiaeth at y ceisydd yn nodi'r dyddiad y daeth i law a'r dyddiad erbyn pryd y dylai gael ymateb. Rhaid ymateb i gais am wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith (mae diwrnodau nad ydynt yn ddiwrnodau gwaith yn cynnwys penwythnosau a gwyliau cyhoeddus). Mae diwrnod cyntaf y cyfnod ymateb o 20 diwrnod gwaith yn dechrau'r diwrnod gwaith nesaf ar ôl cael y cais. Caiff yr ymgeisydd wybod os oes angen trosglwyddo neu ailgyflwyno'r cais naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl er mwyn i awdurdod arall ymateb iddo.

### **5. Ceisiadau Blinderus**

Os yw'r Swyddog Llywodraethu o'r farn bod cais yn flinderus neu'n cael ei ailadrodd, yna gellir gwrthod cais am wybodaeth yn unol ag Adran 14 o'r Ddeddf. Ym mhob achos, y cais fydd yn cael ei farnu yn un blinderus ac nid yr unigolyn sy'n ceisio gwybodaeth. Rhaid i unrhyw gais a wrthodir ar y seiliau hyn gael ei wrthod gyda thystiolaeth glir i gefnogi'r gwrthodiad.

Os bernir bod cais yn flinderus neu'n cael ei ailadrodd, bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod a bydd hefyd yn cael manylion am sut i wneud cais am adolygiad neu apêl.

### **6. Cost sy'n fwy na'r terfyn priodol**

Os byddai ateb cais yn llawn yn costio mwy na £450 (sy'n cyfateb i 18 awr o waith, pryd codir £25 yr awr) yna bydd Hysbysiad Gwrthod Adran 12 yn cael ei ddefnyddio.

Os gwrthodir cais o dan Adran 12 o'r Ddeddf, mae gan y Swyddog Llywodraethu ddyletswydd o dan Adran 16 o'r Ddeddf i gynorthwyo'r ceisydd. Pe bai'n lleihau'r gost yn sylweddol, gellid trafod crynodeb o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani neu drefnu i edrych ar y wybodaeth gyda'r ymgeisydd.

Dim ond rhai gweithgareddau y gellir eu hystyried wrth amcangyfrif a fyddai ymateb i gais yn mynd dros y terfyn costau. Y rhain yw:

- Sefydlu a yw gwybodaeth yn cael ei chadw;
- Lleoli ac adalw gwybodaeth;
- Casglu gwybodaeth berthnasol o'r ddogfen sy'n ei chynnwys.

Ni ellir cynnwys ffactorau eraill fel amser golygu wrth amcangyfrif a fyddai'r ymateb yn fwy na'r terfyn costau.

Os byddai ymateb i un rhan o'r cais yn fwy na'r terfyn cost, yna nid yw'n ofynnol i'r Swyddfa'r Comisiynydd ddarparu ymateb i honno nac unrhyw ran arall o'r cais.

## **7. Ffioedd**

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer codi ffioedd am wybodaeth. Cyfrifir ffioedd yn unol â'r canllawiau statudol a bennir gan Reoliadau Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Addas) 2004.

Os penderfynir codi tâl am gost ddarparu gwybodaeth, byddwn yn anfon hysbysiad ffioedd yn nodi'r swm y dylid ei dalu, gan gynnwys sut yr ydym wedi cyfrifo hyn, cyn gynted â phosibl o fewn y cyfnod ymateb o 20 diwrnod gwaith. Bydd yr ymateb yn cynnwys:

- Esboniad ynghylch y bydd y cyfnod o 20 diwrnod gwaith ar gyfer ymateb i'r cais yn cael ei ohirio hyd nes ceir y taliad (disgwylir taliad o fewn tri mis o ddyddiad yr hysbysiad neu byddwn yn tybio nad oes angen ateb y cais mwyach. Bydd y cyfnod ymateb o 20 diwrnod gwaith yn aildechrau pan fydd y taliad wedi'i glirio);
- Sut i dalu'r ffi;
- Yr hawl i gwyno drwy adolygiad mewnol ac i'r Comisiynydd Gwybodaeth am y ffi a godir.

Gellir codi ffioedd am y canlynol:

- Treuliau cynhyrchu (fel golygu gwybodaeth eithriedig, argraffu neu lungopïo);
- Postio;
- Cydymffurfio â dewisiadau'r ymgeisydd o ran y fformat yr hoffent gael yr wybodaeth ynddo (megis sganio i CD).

## **8. Trosglwyddo/ailgyflwyno cais i awdurdod cyhoeddus arall**

Os credir bod yr wybodaeth y gofynnwyd amdani yn cael ei chadw'n llawn neu'n rhannol gan awdurdod cyhoeddus arall, yna bydd y Swyddog Llywodraethu yn cynghori'r ceisydd i gysylltu â'r awdurdod cyhoeddus perthnasol mewn cysylltiad â'r elfen honno o'r cais. Bydd y Swyddog Llywodraethu yn parhau i gasglu'r wybodaeth sydd gan Swyddfa'r Comisiynydd i fodloni gweddill y cais.

Os sefydlir bod yr awdurdod arall yn cadw'r holl wybodaeth, bydd y Swyddog Llywodraethu yn cysylltu â'r ceisydd ac yn rhoi gwybod iddo y bydd angen cyflwyno cais rhyddid gwybodaeth arall yn uniongyrchol i'r awdurdod perthnasol.

## **9. Ceisiadau am Wybodaeth Bersonol**

Pan fydd cais am wybodaeth yn gofyn am fanylion personol sy'n ymwneud â'r ceisydd, ymdrinnir â hyn o dan amodau Cais Gwrthrych am Wybodaeth o Ddeddf Diogelu Data 2018.

## **10. Prosesu cais**

Bydd y Swyddog Llywodraethu, wrth brosesu cais, yn sefydlu â phwy i gysylltu o fewn Swyddfa'r Comisiynydd er mwyn i'r wybodaeth berthnasol gael ei darparu iddynt.

Bydd yr unigolyn/unigolion priodol yn rhoi'r wybodaeth i'r Swyddog Llywodraethu i'w hadolygu ac i sicrhau ansawdd y wybodaeth.

Yn arferol dylid darparu gwybodaeth mewn fformat electronig a dylid ei e-bostio at y Swyddog Llywodraethu.

Os yw'r wybodaeth ar gael ar ffurf copi caled yn unig, dylid hysbysu'r Swyddog Llywodraethu.

Dylai'r unigolyn sy'n darparu'r wybodaeth dynnu sylw'r Swyddog Llywodraethu at feysydd na fyddent, yn eu barn nhw, yn addas i'w datgelu i'r cyhoedd.

## **11. Troseddau**

Atgoffir pob aelod o staff o Adran 77 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth sy'n nodi:

*"Pan fo cais am wybodaeth wedi'i wneud i awdurdod cyhoeddus, mae unrhyw berson yn euog o drosedd os yw'n newid, yn difwyno, yn atal, yn dileu, yn dinistrio neu'n celu unrhyw gofnod a ddelir gan yr awdurdod cyhoeddus, gyda'r bwriad o atal datgelu'r cyfan neu unrhyw ran o'r wybodaeth y byddai'r ceisydd wedi bod â hawl iddi".*

## **12. Gwerthuso Gwybodaeth i'w Datgelu**

Ar ôl i'r holl wybodaeth ddod i law'r Swyddog Llywodraethu, caiff ei hasesu ar gyfer ei datgelu. Bydd y Swyddog Llywodraethu yn ymgynghori â pherchnogion yr wybodaeth er mwyn llywio ymhellach unrhyw benderfyniad ynghylch ei rhyddhau os bydd angen. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partion allanol y gallem ni fod o dan rwymedigaeth i ryddhau eu gwybodaeth. Bydd unrhyw wybodaeth sydd wedi'i heithrio yn cael ei dal yn ôl. Bydd yr eithriad yn cael ei nodi'n glir ac, yn achos eithriadau nad

dynt yn absoliwt, bydd dadleuon Prawf Lles y Cyhoedd hefyd yn cael eu dogfennu a'u darparu i'r sawl sy'n gwneud cais.

### **13. Terfyn Amser**

Os amcangyfrifir yr eir dros ben y terfyn amser o 20 diwrnod gwaith yn ystod unrhyw ran o'r broses, bydd y Swyddog Llywodraethu yn rhoi gwybod i'r ceisydd cyn gynted â phosibl ac yn rhoi amserlen ddiwygiedig ar gyfer cwblhau'r cais. (Defnyddir hyn dim ond os bydd gwybodaeth yn dod o fewn cwmplas eithriad cymwys a bod angen amser ychwanegol i ystyried prawf lles y cyhoedd – a elwir hefyd yn estyniad prawf lles y cyhoedd).

### **14. Estyniadau Prawf Lles y Cyhoedd**

Caniateir estyniad o dan brawf lles y cyhoedd "hyd nes y bydd yn rhesymol o dan yr amgylchiadau", gan ystyried, er enghraifft, pryd y mae'r wybodaeth yn arbennig o gymhleth neu swmpus neu pryd y mae angen ymgynghori â thrydydd partïon.

Nod Swyddfa'r Comisiynydd yw sicrhau nad yw unrhyw estyniad sydd ei angen oherwydd ystyriaethau prawf lles y cyhoedd yn fwy nag 20 diwrnod gwaith arall ar ben y cais gwreiddiol, er y bydd angen estyniad hirach mewn rhai amgylchiadau.

Os oes angen estyniad o dan brawf lles y cyhoedd, bydd y Swyddog Llywodraethu yn hysbysu'r ceisydd a hefyd yn nodi pa eithriad(au) y dibynnir arnynt a pham a dyddiad cau newydd ar gyfer ymateb y ceisydd.

### **15. Ymateb i Geisyddion**

Pan fydd y broses o gasglu gwybodaeth a chymhwysu'r eithriadau wedi'i chwblhau, caiff yr wybodaeth ei hanfon at yr ymgeisydd, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth.

Bydd manylion hefyd yn cael eu hanfon at y ceisydd i'w hysbysu ynghylch sut y gall gychwyn y Weithdrefn Adolygu/Apelio Rhyddid Gwybodaeth a hefyd sut i gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

### **16. Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR)**

Ymdrinnir ag unrhyw gais a wneir o dan EIR drwy ddilyn yr un egwyddorion â chais rhyddid gwybodaeth gan fod y ddwy gyfundrefn mynediad at wybodaeth yn debyg o ran natur. Fodd bynnag, mae nifer o wahaniaethau rhwng y ddau ddarn o ddeddfwriaeth y ceir crynodeb o'r rhai mwyaf perthnasol isod.

- Nid oes angen i gais EIR fod yn ysgrifenedig

Dylai unrhyw un sy'n ceisio gwybodaeth amgylcheddol, boed yn bersonol, dros y ffôn neu'n ysgrifenedig, gael ei gyfeirio at y Swyddog Llywodraethu.

- Nid oes "terfyn priodol" o ran cost i'w ddefnyddio i wrthod cais.

Er nad oes terfyn uchaf bydd ffioedd cost yn cael eu cyfrifo yn yr un modd â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

➤ Ceir eithriadau cyfyngedig.

Mae llai o eithriadau o dan EIR ac mae angen Prawf Lles y Cyhoedd ar bob un ohonynt. Bydd y Prawf Lles y Cyhoedd hwn yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd ag a wneir gydag eithriadau nad ydynt yn absoliwt o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

## **17. Ailddefnyddio Setiau Data**

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn diffinio set ddata fel "casgliad o wybodaeth ffeithiol ar ffurf electronig sy'n ymwneud â gwasanaethau a swyddogaethau'r awdurdod nad yw'n gynnwys dadansoddi na dehongli, nac yn ystadegyn swyddogol ac nad yw wedi'i newid yn sylweddol".

Mae'n debygol yr ymdrinnir â thrwyddedu a chodi tâl am aildefnyddio gwybodaeth, gan gynnwys setiau data, o dan Reoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus (GSC), [y lluniwyd canllaw](#) iddo gan yr Archifau Cenedlaethol. Yn yr ychydig achosion lle nad yw rheoliadau aildefnyddio GSC yn berthnasol i set ddata, ymdrinnir â thrwyddedu a chodi tâl o dan ddarpariaethau set ddata'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Nid yw rheoliadau aildefnyddio GSC yn gymwys, er enghraifft, i setiau data a ddelir gan Swyddfa'r Comisiynydd at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig â'n tasg gyhoeddus.

Rhoddir ystyriaeth i gyhoeddi'n rhagweithiol unrhyw setiau data a fyddai'n cael eu rhyddhau ar gais fel rhan o Gynllun Cyhoeddi Swyddfa'r Comisiynydd (yn amodol ar unrhyw eithriadau perthnasol). Os yw'r set ddata yn waith hawlfraint perthnasol sy'n eiddo i Swyddfa'r Comisiynydd yn unig, yna byddwn yn ymdrechu i sicrhau ei fod ar gael i'w aildefnyddio yn unol â thelerau un o'r trwyddedau sy'n rhan o Fframwaith Trwyddedu Llywodraeth y DU. Disgwylir y byddai'r rhan fwyaf o geisiadau yn dod o fewn y Drwydded Llywodraeth Agored sy'n galluogi aildefnyddio setiau data yn rhad ac am ddim.

## **18. Adolygiadau o'r Cynllun Cyhoeddi**

Bydd y Swyddog Llywodraethu yn monitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun Cyhoeddi o leiaf bob blwyddyn ac yn adrodd i'r Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth. Fodd bynnag, bydd y Cynllun yn cael ei adolygu'n gyson yn anffurfiol er mwyn sicrhau cywirdeb a thryloywder.

## **19. Deddf yr Iaith Gymraeg 1993**

Os ceir cais rhyddid gwybodaeth yn Gymraeg, bydd yr ymateb yn cael ei ddarparu yn Gymraeg. Fodd bynnag, gan mai Saesneg yw iaith fusnes Swyddfa'r Comisiynydd bydd unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani yn cael ei darparu yn yr iaith fusnes oni bai bod y ddogfen benodol eisoes wedi'i chyfieithu.



## **20. Deddf Cydraddoldeb 2010**

Pan fo'n bosibl, gwneir "addasiad rhesymol" i roi cymorth i unigolion ag anabledd sy'n amharu ar eu hawl i wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu'n eu rhwystro rhag dehongli'r wybodaeth honno.

## **21. Cymorth gyda Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data**

Gellir gofyn i Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Heddlu Gwent a'r Swyddog Diogelu Data weithredu fel ymgynghorwyr ar faterion Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data pe bai angen eglurhad.

## **ADOLYGIADAU/APELIADAU RHYDDID GWYBODAETH**

### **22. Cychwyn Adolygiadau/Apeliadau**

Bydd unrhyw ohebiaeth ysgrifenedig sy'n mynegi anfodlonrwydd â'r ffordd yr ymdriniwyd â chais am wybodaeth drwy'r Weithdrefn Ymdrin â Chais Rhyddid Gwybodaeth yn cael ei thrin fel Adolygiad/Apêl Rhyddid Gwybodaeth.

Os nad yw'r unigolyn wedi bod drwy'r weithdrefn Trin Cais Rhyddid Gwybodaeth yn y lle cyntaf, ni fydd unrhyw anfodlonrwydd ysgrifenedig yn cael ei drin fel Adolygiad/Apêl Rhyddid Gwybodaeth, ond bydd yn cychwyn y Weithdrefn Trin Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Dylid cyfeirio unrhyw achos pan fo unigolyn yn mynegi ar lafar anfodlonrwydd â'r ffordd yr ymdriniwyd â chais dilys am wybodaeth, at y Swyddog Llywodraethu, ond rhaid ei gael yn ysgrifenedig cyn y gellir ei brosesu.

Rhaid i geisiadau am adolygiad mewnol gael eu cynnal o fewn 40 diwrnod gwaith o'r dyddiad y cyhoeddwyd yr ymateb cychwynnol neu ni fyddant yn cael eu hystyried.

Bydd Adolygiadau/Apeliadau yn cael eu cyfeirio at y Swyddog Llywodraethu er mwyn cael eu cofnodi ac yna byddant yn cael eu hanfon at y Prif Weithredwr.

Bydd y Prif Weithredwr yn adolygu'r broses ac yn rhoi penderfyniad terfynol yn ysgrifenedig gan roi rhesymau dros y penderfyniad.

Ar ôl i adolygiad ddod i law, caiff ei gydnabod o fewn 7 diwrnod gan y Swyddog Llywodraethu, a bydd yr apelydd yn cael amcangyfrif o'r amserlen ar gyfer cwblhau'r adolygiad. Bydd hyn yn seiliedig ar gymhlethdod yr achos, y nod yw darparu pob ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith o'r dyddiad y daeth y cais i law, er y gallai fod angen estyniad i'r cyfnod ymateb hwn mewn nifer fach o amgylchiadau.

Os yw'n debygol yr eir dros ben yr amser amcangyfrifedig gwreiddiol, bydd yr apelydd yn cael gwybod gan y Swyddog Llywodraethu am yr oedi ac yn cael amserlen ddiwygiedig.

### **23. Cynnal adolygiad**

Bydd y broses adolygu yn edrych ar yr holl agweddau ar y modd yr ymdriniwyd â'r cais rhyddid gwybodaeth gwreiddiol. Bydd hyn yn cynnwys pa un a ddilynwyd gweithdrefnau'n gywir, a ddefnyddiwyd eithriadau a golygiadau'n gywir ac a gasglwyd yr holl wybodaeth yn ymwneud â'r cais.

### **24. Casgliad adolygiad**

Bydd y Swyddog Llywodraethu yn cymryd copi o'r adroddiad terfynol ac unrhyw ddogfennau eraill ac yn anfon yr adroddiad gwreiddiol at yr apelydd.

Ym mhob achos, beth bynnag fydd canlyniad yr adolygiad, bydd manylion ynghylch sut y gall yr apelydd apelio i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cael eu cynnwys gyda'r adroddiad terfynol.

Os penderfynir, adeg canlyniad y broses o adolygu gwybodaeth, y dylid datgelu gwybodaeth a gadwyd yn ôl yn flaenorol, bydd yr wybodaeth hon yn cael ei hanfon at yr apelydd cyn gynted â phosibl gan y Swyddog Llywodraethu.

Os canlyniad yr adolygiad yw na ddilynwyd gweithdrefnau priodol wrth ymdrin â'r cais gwreiddiol, bydd yr apelydd yn cael esboniad wedi'i lofnodi gan y Prif Weithredwr a fydd yn amlinellu'r hyn a wneir i gywiro unrhyw wall sy'n digwydd yn y dyfodol.

Bydd unrhyw ddiffyg gweithdrefnol a ddaw i'r amlwg wrth ymdrin â'r cais rhyddid gwybodaeth gwreiddiol yn cael ei amlygu i'r Swyddog Llywodraethu a'r Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth er mwyn ysgogi adolygiad o'r weithdrefn honno a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol. Bwriad hyn yw atal digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol.

### **25. Dogfennu a Chyhoeddi Adolygiadau/Apeliadau**

Gall y Swyddog Llywodraethu sicrhau bod ystadegau blynyddol ar gael drwy'r Cynllun Cyhoeddi sy'n nodi canlyniadau adolygiadau/apeliadau. Bydd hyn yn cynnwys nifer yr adolygiadau/apeliadau, pa un a gawsant eu cadarnhau, eu dal yn ôl neu eu gwrthod yn rhannol a chyfradd llwyddiant cwblhau adolygiadau/apeliadau mewn amser priodol. Gall hefyd gynnwys crynodeb byr o adolygiadau/apeliadau unigol ond ni fydd yn cynnwys unrhyw fanylion am yr apelydd.

### **26. Y Sail Gyfreithiol a'r Nodau Cyfreithlon**

Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

### **27. Cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg**

Bydd y weithdrefn hon yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg Swyddfa'r Comisiynydd o ran ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, yr effaith ar ddelwedd gyhoeddus Swyddfa'r Comisiynydd a gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu.

## **ATODIAD A**

### **STAFF SWYDDFA'R COMISIYNYDD**

Ymdrin â cheisiadau'r cyhoedd am wybodaeth

#### **1. Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

Bwriad Deddf Rhyddid Gwybodaeth yw caniatáu i unrhyw un yn y byd gael gwybodaeth sydd ei hangen arnynt gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'r ddeddfwriaeth yn gosod tri gofyniad sylfaenol arnom:

- ein bod yn rhoi cymaint o wybodaeth amdanom ni ein hunain ag sy'n rhesymol bosibl i'r cyhoedd fel mater o drefn drwy'r Cynllun Cyhoeddi;
- ein bod yn sicrhau pan fo unigolyn angen gwybodaeth sydd gennym, ond nad yw eisoes wedi'i chyhoeddi, ein bod yn rhoi'r wybodaeth berthnasol i'r ymgeisydd (yn amodol ar eithriadau);
- bod gennym ddull wedi'i strwythuro'n briodol o reoli cofnodion er mwyn sicrhau bod cofnodion hanfodol o'n gweithgareddau yn cael eu cadw mewn manylder priodol (ac felly mae gwybodaeth berthnasol ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd).

Mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio'n benodol i'ch helpu i ymdrin â cheisiadau am wybodaeth a deall y broses Rhyddid Gwybodaeth.

#### **2. Cynllun Cyhoeddi Swyddfa'r Comisiynydd**

Mae Swyddfa'r Comisiynydd eisoes yn rhoi llawer iawn o wybodaeth i'r cyhoedd. Caiff ei chyhoeddi fel arfer drwy'r wefan [www.gwent.pcc.police.uk](http://www.gwent.pcc.police.uk) er y gellir cyhoeddi rhai deunyddiau ar bapur ac yna trefnu eu bod ar gael yn gyffredinol.

Fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, mae rhywfaint o'r wybodaeth y mae Swyddfa'r Comisiynydd yn ei gwneud yn gyhoeddus wedi'i rhestru yn ein Cynllun Cyhoeddi, sy'n disgrifio'r mathau o wybodaeth sydd ar gael a ble y gellir dod i hyd iddi.

#### **3. Yr hawl i ofyn am wybodaeth**

Mae'r hawl i ofyn am wybodaeth o dan y Ddeddf yn ymestyn i unrhyw un sy'n dymuno gwneud ymholiad. Nid oes cyfyngiad ar bwy all wneud ymholiad – mae'r gyfraith yn rhoi'r hawl i bobl ifanc ac oedolion fel ei gilydd, ac mae gan unrhyw un yn y byd yr un hawl i ofyn am wybodaeth.

Nid oes rhaid i ymgeiswyr ddatgelu pam y maent angen y wybodaeth y maent yn ei cheisio. Nid oes angen i ymgeiswyr ddyfynnu eu hawlau (nac hyd yn oed fod yn ymwybodol ohonynt) o dan y Ddeddf i wneud cais am wybodaeth. Yr unig ofyniad y mae'r gyfraith yn ei roi ar geisydd yw bod yn rhaid iddo **ddisgrifio'r wybodaeth sydd**

**ei hangen yn ysgrifenedig, rhoi enw a chyfeiriad ar gyfer gohebiaeth**, er mwyn iddo gael awdurdod cais a wneir o dan delerau'r Ddeddf.

Ym mhob achos, rhaid darparu'r wybodaeth (neu'r ffyrdd y gall yr unigolyn ddod o hyd i'r wybodaeth honno) o fewn **20 diwrnod gwaith** (h.y. heb gynnwys dydd Sadwrn, dydd Sul a Gwyliau Banc) o'r dyddiad pan ddaeth yr ymholiad ysgrifenedig i law. Mae hwn yn amser ymateb byr iawn felly, os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch pa un a allai ymholiad fod yn ymholiad Rhyddid Gwybodaeth, neu os na allwch ymateb o'r cofnodion sydd ar gael i chi, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r Swyddog Llywodraethu i gael eglurhad.

#### **4. Diogelu Data yn erbyn Rhyddid Gwybodaeth**

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng ceisiadau a wneir o dan delerau Deddf Diogelu Data 2018 a'r rhai a wnaed o dan delerau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Os yw unigolyn yn dymuno cael copi o unrhyw ddata personol a gedwir amdano gan Swyddfa'r Comisiynydd yna Cais Gwrthrych am Wybodaeth yw hwn a dylid cyfeirio ymholiadau o'r fath at y Swyddog Llywodraethu.

Os yw unigolyn yn gofyn am wybodaeth gyffredinol am Swyddfa'r Comisiynydd, ei weithgareddau, neu unrhyw ddeunydd arall a gedwir yn ein cofnodion, yna Cais Rhyddid Gwybodaeth yw hwn. Os nad yw'n bosibl dweud yn union pa fath o gais sy'n cael ei wneud, neu os yw'n ymddangos bod cais yn cwmpasu elfennau o'r ddwy Ddeddf, dylid cyfeirio ymholiadau o'r fath **bob amser** yn y lle cyntaf at y Swyddog Llywodraethu.

#### **5. Busnes fel Arfer**

Nid oes unrhyw fwrriad i atal staff rhag darparu gwybodaeth yn uniongyrchol mewn ymateb i gais ysgrifenedig pan fo hyn wedi digwydd erioed: dylai staff sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth reolaidd barhau i ymdrin â'r ceisiadau hyn fel arfer, fel y dylai unigolion sy'n gyfrifol am ohebu â'r cyhoedd ar faterion cyffredinol. Beth bynnag, dylid ymdrin â busnes fel arfer yn fuan.

Nid oes gan ymholiadau llafar (e.e. y rhai a wneir dros y ffôn) rym y gyfraith. Fodd bynnag, os byddwch yn cael ymholiad o'r fath ac os na allwch fodloni'r ymholiad ar lafar drwy lwybrau busnes fel arfer, dylech roi gwybod i'r ceisydd y gall wneud y cais yn swyddogol drwy ysgrifennu at y Swyddog Llywodraethu. Os oes angen, gallwch gyfeirio ei alwad at y Swyddog Llywodraethu.

Os yw'r unigolyn yn gofyn am wybodaeth sydd eisoes ar gael i'r cyhoedd, mae gennym ddyletswydd i "ddarparu cyngor a chymorth" a rhoi gwybod i'r unigolyn ble y gellir dod o hyd i'r wybodaeth honno.

#### **6. Adnabod Cais Rhyddid Gwybodaeth**

Dylech gysylltu â'r Swyddog Llywodraethu os yw'r cais yn cyd-fynd â'r meini prawf canlynol:-

- Mae'r cais yn datgan ei fod yn cael ei wneud o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004;
- Mae'r cais yn gofyn am wybodaeth na ddylid ei datgelu yn eich barn chi (er enghraifft, gall y wybodaeth gynnwys gwybodaeth bersonol am unigolyn); a/neu
- Mae'r cais yn gofyn am wybodaeth ac nid ydych yn gwybod lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth.

Cofiwch fod arnom ddyletswydd cyfrinachedd gyffredinol i geiswyr – wrth ystyried cais a/neu ei drosglwyddo i unrhyw aelod arall o staff, dim ond ar sail angen i wybod y dylech ddarparu manylion personol yr unigolyn.

## 7. Ymgynghori â Thrydydd Partïon

Bydd amgylchiadau pan fyddwn yn ymgynghori â thrydydd partïon ynghylch gwybodaeth sydd gennym ynghylch a yw'n addas i'w datgelu ai peidio. Gall hyn godi pan fo:

- Ceisiadau am wybodaeth yn ymwneud ag unigolion neu gyrff nad ydynt yn geisyddion a/neu Swyddfa'r Comisiynydd;
- Datgelu gwybodaeth yn debygol o effeithio ar fuddiannau unigolion neu gyrff nad ydynt yn geisyddion Swyddfa'r Comisiynydd.

Efallai y bydd angen ymgynghori â'r trydydd parti y mae ei wybodaeth yn cael ei chadw gennym ac sy'n dod o dan gais rhyddid gwybodaeth gan y gallai fod gan y sefydliad sydd wedi creu/darparu'r wybodaeth well dealltwriaeth o'i sensitifrwydd nag sydd gan Swyddfa'r Comisiynydd. Bydd barn y trydydd parti yn ddefnyddiol pan fydd angen ystyried y prawf rhagfarn a phrawf lles y cyhoedd fel rhan o eithriadau arbennig.

Er y gall trydydd parti roi barn ynghylch a ddylid rhyddhau'r wybodaeth ai peidio, mater i Swyddfa'r Comisiynydd yn y pen draw yw gwneud y penderfyniad terfynol ar ryddhau gwybodaeth.

Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i'r trydydd parti am y penderfyniad terfynol a wnaed, yn enwedig os yw'r wybodaeth yr ydych wedi ymgynghori â nhw yn ei chylch i gael ei rhyddhau.

## 8. Materion perthnasol eraill

**Eithriadau.** Mae'r gyfraith yn caniatáu gweithredu rhai eithriadau. Mae'r rhain fel arfer yn ymwneud â gwybodaeth a allai effeithio ar y math o waith a wnawn ni.

Os cewch gais am wybodaeth sy'n cynnwys gwybodaeth nad yw yn ein Cynllun Cyhoeddi ac sy'n cynnwys gwybodaeth am unigolion neu sy'n wybodaeth fasnachol sensitif, yna cysylltwch â'r Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth ar unwaith.

**Adolygiadau Cwynion ac Apeliadau.** Mewn unrhyw achos pan fo Swyddfa'r Comisiynydd yn gwrthod ymateb (neu'n methu ag ymateb yn llawn) i gais am wybodaeth, mae gan y ceisydd yr hawl i apelio. Os bydd ceisydd yn cyflwyno cynwys am natur a/neu gynnwys unrhyw ymateb, anfonwch y gŵyn hon at y Swyddog Llywodraethu, a fydd yn mynd ar drywydd y gŵyn ac yn rhoi gwybod i'r ceisydd am yr hawl i'r broses adolygu/apelio.

**Eglurhad.** Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd yr hawl i ofyn i geisydd am ragor o fanylion i egluro ei gais mewn achosion pan nad yw'n glir ar unwaith pa wybodaeth sydd ei hangen arno. Os byddwch yn penderfynu ymdrin ag ymholiad fel busnes fel arfer, rhaid i chi fod yn siŵr eich bod yn glir ynghylch pa wybodaeth y gofynnwyd i chi ei darparu: os nad ydych yn glir, yna gallwch gysylltu â'r ymgeisydd i gael eglurhad. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'r Swyddog Llywodraethu.

**Costau a ffioedd.** Ar y cyfan, ymdrinnir â Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, os byddai'r gost o gydymffurfio â chais yn fwy na'r "terfyn priodol" fel y nodir yn y rheoliadau ffioedd yn y Ddeddf, gallwn wrthod y cais. Ar hyn o bryd, mae hyn yn werth £450 o waith yn seiliedig ar gyfradd safonol o £25 yr awr; mae hyn yn cyfateb i werth 18 awr o waith. Dylech nodi **na** fydd hyn yn newid y cyfundrefnau codi tâl presennol pryd yr ydym yn gosod cost am wybodaeth a dylid ymdrin â'r ymholiadau hyn yn y modd arferol.

**Ystadegau. Nid** yw'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybodaeth ystadegol arbenigol i geiswyr nad yw Swyddfa'r Comisiynydd yn ei chynhyrchu fel arfer. Dylid anfon pob cais ystadegol arall (oni bai ei fod yn fusnes fel arfer) at y Swyddog Llywodraethu i'w ystyried.

**Ymgyrchoedd wedi'u trefnu.** Mae'r gyfraith yn caniatáu i ni wrthod nifer o geisiadau am wybodaeth a wneir fel rhan o ymgyrch. Os byddwch yn derbyn ymholiadau lluosog o natur debyg, **ni** ddylech wrthod cydweithredu ond mae'n rhaid i chi bob amser hysbysu'r Swyddog Llywodraethu, a fydd yn gallu ystyried a yw ymgyrch yn cael ei chychwyn ac, os nad yw'n cael ei chychwyn, gall wneud trefniadau i ychwanegu'r wybodaeth y gofynnir amdani'n aml at Gynllun Cyhoeddi Swyddfa'r Comisiynydd.

**Aildefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus.** Sicrhewch fod unrhyw setiau data a ystyrir ar gyfer eu rhyddhau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth wedi'u gwirio i sicrhau nad oes angen i ni ddefnyddio rheoliadau aildefnyddio gwybodaeth sector cyhoeddus.

**Trefniadau Cydnheredd.** Oherwydd maint Swyddfa'r Comisiynydd, dim ond nifer cyfyngedig o staff sydd wedi cael yr hyfforddiant Rhyddid Gwybodaeth gofynnol. Bydd y weithdrefn ganlynol yn cael ei gorfodi os nad yw'r staff gofynnol ar gael:

Absenoldeb Swyddog Llywodraethu – bydd y Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth yn gyfrifol am goladu ac ymateb i geisiadau gyda chymeradwyaeth a ddarperir gan y Prif Weithredwr. Os ceir apêl mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r ceisiadau hyn, bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn gofyn i Heddlu Gwent neu Swyddfa'r Comisiynydd/Heddlu arall ymdrin â'r apêl ar ein rhan.

Absenoldeb y Pennaeth Sicrwydd a Chydymffurfiaeth – bydd y Swyddog Llywodraethu yn coladu ac yn ymateb i geisiadau gyda chymeradwyaeth a ddarperir gan y Prif Weithredwr. Os ceir apêl mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r ceisiadau hyn, bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn gofyn i Heddlu Gwent neu Swyddfa'r Comisiynydd/Heddlu arall ymdrin â'r apêl ar ein rhan.

Absenoldeb y Prif Weithredwr – bydd y broses goladu, ymateb a chymeradwyo yn parhau fel arfer. Os ceir apêl mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r ceisiadau hyn, bydd

Swyddfa'r Comisiynydd yn gofyn i Heddlu Gwent neu Swyddfa'r Comisiynydd/Heddlu arall ymdrin â'r apêl ar ein rhan.

## 9. I grynhoi

Byddwch yn ymwybodol o oblygiadau'r Ddeddf, a gwnewch yn siŵr bod cydweithwyr hefyd yn ymwybodol o'r canlynol:

- Gall unigolion yn awr ofyn i ni roi llawer o'r wybodaeth a ddelir gan Swyddfa'r Comisiynydd iddynt, lle bynnag y caiff ei chadw yn Swyddfa'r Comisiynydd.
- Mae unrhyw gais ysgrifenedig yn ddilys ni waeth at bwy y cyfeiriwyd ef o fewn y llu, cyn belled â'i fod yn ddarllenadwy ac yn disgrifio'r wybodaeth sydd ei hangen.
- Gall aelod o'r cyhoedd weld unrhyw beth yr ydych chi wedi'i ysgrifennu neu wedi'i gofnodi. Felly sicrhewch fod y cofnodion yr ydych chi'n eu cadw yn gywir ac yn broffesiynol. Mae cyfran uchel o'r ceisiadau rhyddid gwybodaeth yn mynd i mewn i'r cyfryngau, a dylech fod yn ymwybodol y gallai hyn effeithio arnoch chi a'r wybodaeth sydd gennych.
- Os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'r Swyddog Llywodraethu; dim ond **20 diwrnod gwaith sydd gennym i ymateb.**
- Dylech ymateb i'r Swyddog Llywodraethu cyn gynted â phosibl os gofynnir i chi am wybodaeth.

## ATODIAD B



ICO Flow Chart for  
Handling Requests